
# Canllawiau Rhieni i Brotocol Trechu Trosedd Ysgolion



ywodraeth Cymru
Welsh Government

Rhaglen Ysgolion
HEDDLU CYMRU
WALES POLICE
Schools Programme





Nod y daflen hon ydy eich cynorthwyo chi i ddeall sut mae'r Heddlu'n cynorthwyo ysgolion gydag achosion o drosedd rhwng disgyblion ar safle'r ysgol, yn ystod oriau ysgol.

Am fwy o wybodaeth a chyngor i rieni a disgyblion, ewch ar wefan SchoolBeat: www.SchoolBeat.cymru

Mae Swyddogion Heddlu Ysgolion yn cynorthwyo ysgolion i gadw disgyblion yn ddiogel drwy gyflwyno gwersi atal trosedd a chynnig cymorth i'r ysgolion ymdrin â digwyddiadau difrifol.

Diben y daflen hon ydy:

- Eich cynorthwyo chi ddeall sut mae'r Heddlu a'ch ysgol yn gweithio mewn partneriaeth.
- Egluro mai'r Protocol Trechu Trosedd Ysgolion ydy'r cytundeb rhwng yr ysgol a'r Heddlu sy'n anelu atal plant rhag mynd i'r System Cyfiawnder Troseddol a chael cofnod troseddol.
- Dweud wrthych chi'r hyn i'w ddisgwyl os ydy Swyddog Heddlu'r Ysgol yn gysylltiedig â'ch plentyn.

Ni fydd eich Swyddog Heddlu Ysgol yn ymdrin â bwlio a digwyddiadau lefel isel fel arfer. Dylai'r ysgol ymdrin â'r ymddygiad hwn. Bydd gan bob ysgol bolisïau a gweithdrefnau i'w dilyn y gallwch ofyn i'w gweld.

**Mae fy mhlentyn mewn trafferth yn yr ysgol**

**Dwi'n meddwl fod fy mhlentyn yn dioddef yn yr ysgol**

**Dwi'n meddwl fod fy mhlentyn wedi troseddu ar safle'r ysgol.**

**Beth ddylwn ei ddisgwyl?**

## OS YDYCH YN PRYDERU AM EICH PLENTYN, CYSYLLTWCH Â'R YSGOL YN GYNTAF BOB AMSER.

Gwnaiff eich ysgol ymchwilio'r digwyddiad, gan siarad gyda phob tyst. Bydd eich plentyn yn cael ei ymdrin fel arfer drwy bolisïau'r ysgol. Efallai gwnaiff yr ysgol ofyn i Swyddog Heddlu'r Ysgol am gyngor a chanllawiau.

Os ydych yn anhapus gyda'r hyn mae'r ysgol wedi'i wneud, mae gennych hawl i apelio i:

- Y Pennaeth
- Y Bwrdd Llywodraethwyr
- Yr Awdurdod Lleol (ar gyfer ardal eich ysgol)

### YMATEB YR YSGOL:

1. Ymchwilir y digwyddiad drwy broses yr ysgol
2. Defnyddir gweithdrefnau'r ysgol
3. Gall yr ysgol gynnwys Swyddog Heddlu'r Ysgol
4. Swyddog Heddlu'r Ysgol i asesu'r achos o dan Trechu Trosedd yr Ysgol

Os nad ydy'r ysgol wedi gwneud eisoes, efallai y byddwch yn gofyn i'r ysgol gynnwys Swyddog Heddlu'r Ysgol er mwyn cael cymorth.





## FFONIO'R HEDDLU

Cyn ffonio 101, a ydych wedi:

1. siarad â'r ysgol?
2. rhoi amser i'r ysgol ymchwilio?

Pan ydych yn ffonio'r gwasanaeth 101, gwnaiff derbynnydd yr alwad wrando a chofnodi manylion eich sgwrs a rhoi'r manylion hyn ar system yr heddlu. **Mae bob galwad i'r Heddlu yn creu trosedd yn awtomatig.**

Efallai mai Swyddog Heddlu eich Ysgol ydy'r gorau i gynorthwyo.

Pan mae Swyddog Heddlu'r Ysgol yn gysylltiedig, gwnânt benderfynu os gellir ymdrin â'r digwyddiad gan Brotocol Trechu Trosedd yr Ysgol. Os felly, gwnânt ymdrin â'r mater tu allan i'r System Cyfiawnder Troseddol os yn bosibl. Er mwyn gwneud, gall Swyddog Heddlu Ysgol ddefnyddio 'Ymdriniaeth Adferol' sy'n cael y drwgweithredwr i gymryd cyfrifoldeb am eu gweithrediadau ac yna cymodi. Gall hyn unioni'r niwed ac mae'n cynorthwyo'r dioddefwr a'r drwgweithredwr.

### BETH SY'N DIGWYDD OS WNAF FFONIO 101?

1. Cofnodir trosedd heddlu
2. Dyrennir y digwyddiad i Swyddog Heddlu'r Ysgol, os yn briodol
3. Cynhelir ymchwiliad
4. **Rhoddir canlyniad y drosedd ar waith** (Penderfyniad yr heddlu ar y ffordd orau i ymdrin â'r drosedd)
5. Cymorth Dioddefwyr

Os na all y digwyddiad gael ei ymdrin gyda Swyddog Heddlu'r Ysgol, gwnaiff yr Heddlu ymchwilio ymhellach. Mae nifer o ganlyniadau a ellir eu defnyddio er mwyn sicrhau datrysiad cadarnhaol i'r ddwy ochr.




86664